Os hoffech gysylltu â ni:

Independent Review Service
4th Floor, Centre City Podium
5 Hill Street
Birmingham. B5 4UB

Ffôn: 0800 096 1926
Ffôn testun: 0800 096 1929
Ffacs: 0121 606 2180
e-bost: em@irs-review.org.uk
Gwefan: www.irs-review.org.uk

Mae gwybodaeth ystadegol a gwybodaeth arall ynghylch adolygiadau Arolygyddion y Gronfa Gymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon ar gael o:
Swyddfa Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol. **Scottish Amicable Building, 11 Donegal Square South, Belfast. BT1 5JE**
Rhadffôn: 0808 127 0417 Ffacs: 0280 9023 0921 e-bost: sfc@osfcni.org.uk
Gwefan: www.osfcni.org.uk

Arweiniad syml
i'r Gronfa Gymdeithasol

Gwasanaeth Arolwg Annibynnol
gyfer y Gronfa Gymdeithasol

INVESTOR IN PEOPLE

irs
Independent Review Service
for the Social Fund

Rhagair

Mae'r arweiniad hwn yn orolwg sylfaenol o'r Gronfa Gymdeithasol.

Mae'r Gronfa Gymdeithasol yn darparu grantiau a benthyciadau di-log er mwyn helpu pobl sydd ar incwm isel gyda chostau sy'n anodd i'w cwrdd o incwm rheolaidd.

Corff annibynnol statudol yw'r Gwasanaeth Arolwg Annibynnol (IRS) wedi'i seilio yn Birmingham. Ei rôl yw i wneud arolygon annibynnol o ddyfarniadau dewisol y Gronfa Gymdeithasol. Bydd yr Arolygydd Cronfa Gymdeithasol sy'n cynnal yr arolwg yn dod i'w benderfyniad ei hun wedi'i seilio ar holl amgylchiadau'r achos.

Mae'r IRS:

- Yn newid dros hanner y penderfyniadau Cronfa Gymdeithasol a arolygir gennym.
- Yn dod i benderfyniad ynghylch achosion Cronfa Gymdeithasol rhigolaidd o fewn 12 diwrnod.
- Yn delio â benthyciadau brys mewn argyfwng o fewn 24 awr neu lai.

Mathau o daliadau a ffurflenni cais

Ceir tri math o daliad a thri math o ffurflen gais:

- Grant gofal cymunedol SF300
- Benthyciad argyfwng SF401
- Benthyciad cyllidebu SF500

Cwblhau ffurflenni cais

Mae angen cynghori cwsmeriaid i roi cymaint o wybodaeth berthnasol ag y medrant ar y ffurflen gais. Mae'n hanfodol cynnwys:

- Manylion ynghylch yr angen a sut y digwyddodd.
- Eu hamgylchiadau personol.
- Sut mae bod heb yr eitem y gofynnwyd amdani'n effeithio arnynt.

Grantiau Gofal Cymunedol

Cymhwyster

Medrir talu grantiau gofal cymunedol i bobl sy'n derbyn naill ai cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith sy'n seiliedig ar incwm neu gredyd pensiwn y wladwriaeth.

Amodau cymhwyster

Mewn termau bras, gall cwsmer fod yn gymwys i dderbyn grant :

- Os yw ef neu aelod o'i deulu yn gadael gofal sefydliadol ac mae angen iddo sefydlu ei hun yn y gymuned.
- Os oes angen cymorth arno neu aelod o'i deulu i aros yn ei gartref ei hun, yn hytrach na mynd i fyw i fath o lety lle y darperid gofal.
- Os yw'r teulu'n wynebu pwysau eithriadol.
- Os oes angen help arno er mwyn gofalu am garcharor neu berson ifanc a ryddhawyd dros dro o'r carchar.
- Os yw'n sefydlu cartref fel rhan o raglen ailsefydlu gynlluniedig ar ôl bod heb ddull sefydlog o fyw.
- Os oes angen cymorth arno ef a'i deulu gyda chostau teithio am reswm penodol.

Benthyciadau argyfwng

Ceir dau fath o fenthyciad argyfwng:

- Benthyciadau argyfwng ar gyfer costau byw.
- Benthyciadau argyfwng ar gyfer eitemau.

Cymhwyster
Nid oes rhaid i'r cwsmer fod yn derbyn unrhyw fudd-daliad ond rhaid iddo fod heb adnoddau digonol er mwyn cwrdd â'r angen y gwnaeth gais yn ei gylch.

Amodau Cymhwyster
Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn benthyciad argyfwng rhaid bod angen i'r cwsmer neu aelod o'i deulu gwrdd â'r costau:

- Mewn argyfwng neu o ganlyniad i drychineb.
- A rhaid mai dyfarniad yw'r unig fodd i atal niwed difrifol neu berygl difrifol i'w hiechyd neu eu diogelwch.

Benthyciadau cyllidebu

Medrir talu benthyciadau cyllidebu er mwyn helpu cwsmeriaid i brynu neu dalu am gategorïau angen penodol:

Prynu:

- Dodrefn ac offer at y tŷ neu
- Ddillad ac esgidiau

Talu am:

- Gostau teithio
- Rhent o flaen llaw a/neu gostau symud er mwyn bod o gymorth i symud i gartref newydd
- Gwella, cynnal a chadw a diogelu'r cartref
- Costau os yw'r cwsmer yn chwilio am waith neu'n dychwelyd i'r gwaith
- Ad-dalu dyledion a hur bwrcas.

Proses y Gronfa Gymdeithasol

Ffurflen gais
(SF300/SF401/SF500)
⬇
Penderfyniad y Penderfynwr
⬇
Cais am Arolwg 1af
⬇
Cyfweliad
⬇
Penderfyniad y Swyddog Arolygu
⬇
Cais am 2ail Arolwg
⬇
Penderfyniad Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol

Gwneud cais am arolwg

Rhaid i'r ddau gais am arolwg :

- Gael eu gwneud yn ysgrifenedig.
- Gael eu cyflwyno i'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith berthnasol.
- Gynnwys manylion ynglŷn â'r rhesymau penodol dros wneud cais am arolwg.
- Fod wedi'u harwyddo gan y person sy'n gwneud y cais a meddu ar awdurdodiad os defnyddir cynrychiolydd.
- Gael eu gwneud o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y penderfyniad, ond medrir derbyn ceisiadau hwyr.

Rhyngweithiad IRS â'r cwsmer

Bydd yr arolygydd sy'n delio â'r achos yn anfon i'r cwsmer:

- Fwndel wedi'i symleiddio o ddogfennau allweddol yn yr achos
- Llythyr oddi wrth Arolygydd sy'n datgan:
    - ffeithiau perthnasol yr achos
    - manylion y pynciau pwysicaf sydd i'w penderfynu
    - ac unrhyw gwestiynau sydd angen i'r Arolygydd eu gofyn.

Opsiynau'r Arolygydd

- Cadarnhau'r penderfyniad
- Cyfeirio'r achos yn ôl er mwyn i benderfyniad newydd gael ei wneud.

Sut i gysylltu â'r IRS

Y Tîm Busnes
Independent Review Service
4th Floor,
Centre City Podium,
5 Hill Street,
Birmingham. B5 4UB

Medrwch ein ffonio ar : **0121 606 2160** neu anfon ffacs i ni ar **0121 606 2191**

Medrwch ymweld â'n gwefan ar : **www.irs-review.org.uk** neu anfon e-bost atom yn **em@irs-review.org.uk**